Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Aran Hall

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Aran Hall

Mae Aran Hall yn ysgol arbennig annibynnol wedi'i lleoli gerllaw Dolgellau yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn un o 5 ysgol arbennig sy'n cael eu gweithredu ar draws Cymru a Lloegr gan grŵp SENAD.

Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi i ddisgyblion 11 i 19 oed sydd ag ystod o anableddau dysgu, anhwylderau'r sbectrwm awtistig ac ymddygiadau heriol cysylltiedig.

Ar hyn o bryd, mae 11 disgybl ar gofrestr yr ysgol, pob un ohonynt yn fechgyn sy'n byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol. Mae gan bob un o'r disgyblion gynllun addysg a gofal iechyd ac maent yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd Saesneg eu hiaith.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2003. Penodwyd y dirprwy bennaeth a'r pennaeth addysg ym mis Medi 2019.

## Prif gryfderau

### *Cryfderau*

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran bodloni'r targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol a'u cynlluniau ymddygiad unigol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, caiff bron pob un o'r disgyblion achrediad addas i gofnodi eu cyflawniadau.

Mae'r ysgol yn cynnal asesiad parhaus cychwynnol a rheolaidd o anghenion disgyblion. Mae'r asesiadau cynhwysfawr hyn yn rhoi dealltwriaeth drylwyr i athrawon o alluoedd disgyblion ar draws amrywiaeth o bynciau a meysydd dysgu, gan gynnwys ymddygiad. Yn gyffredinol, mae athrawon yn gwneud defnydd da o ddeilliannau'r asesiadau hyn i dargedu meysydd dysgu blaenoriaeth yn eu gwersi.

Mae'r ysgol yn cynnig profiad dysgu strwythuredig i ddisgyblion gyda systemau gwobrwyo clir a phriodol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn y tymor byr a'r tymor hir fel ei gilydd.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol i gefnogi cyfnod pontio disgyblion. Wrth iddynt agosáu at ddiwedd eu gyrfa ysgol, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn hyfforddiant medrau bywyd buddiol, profiad gwaith a lleoliadau coleg, lle bo'n briodol. Mae disgyblion ar y rhaglen medrau bywyd ac annibyniaeth yn paratoi llyfrau hanes bywyd defnyddiol i ddogfennu eu profiadau a'u cyflawniadau yn Aran Hall. Mae'r llyfrau'n darparu cofnod gwybodus o ddysgu ac achredu i gefnogi pontio i'r cam dysgu nesaf a bywyd fel oedolyn.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn hynod effeithiol. Yn ddiweddar, cryfhawyd yr uwch dîm arweinyddiaeth, a sicrhawyd cynlluniau priodol ar gyfer olyniaeth y pennaeth wrth iddo ymddeol o waith amser llawn yn 2020. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys datblygiad proffesiynol pellach priodol yr arweinwyr newydd. Sicrhaodd hyn fod cynllunio strategol yn rhoi arweinyddiaeth gyson i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwerthuso'n effeithlon agweddau ar ei harfer ac yn rhannu deilliannau trwy gyhoeddiadau academaidd, anerchiadau a darlithoedd. Mae hyn yn galluogi pobl eraill i ddysgu am ei harfer dda.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonedig i sefydlu medrau disgyblion mewn mathemateg. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r data asesu hwn i gynllunio strategaethau priodol i wella medrau rhifedd disgyblion.

Yn briodol, mae'r ysgol wedi nodi bod angen gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion elwa ar amrywiaeth o brofiadau dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran rhoi'r gwelliannau hyn ar waith.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i adeiladu'n systematig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rifedd ar draws y cwricwlwm**

**A2. Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored i ddatblygu eu dysgu a'u medrau**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod staff yn gwneud cysylltiadau â darparwyr priodol eraill i gefnogi eu harfer broffesiynol barhaus o ran y cwricwlwm**

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cysylltiadau defnyddiol â darparwyr ledled Cymru a thu hwnt. Mae bron pob un o'r staff wedi cryfhau eu datblygiad proffesiynol trwy ymweliadau ag amrywiaeth o ddarparwyr priodol. Maent yn datblygu rhwydwaith cymorth cryf ac ymwybyddiaeth dda o ddatblygiadau newydd i'r cwricwlwm.

O ganlyniad uniongyrchol i'w hymweliadau, mae'r ysgol wedi cynyddu ystod yr achredu i fodloni diddordebau a galluoedd disgyblion unigol ac wedi gwella cymedroli mewnol o ran Saesneg a mathemateg.

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth well o'r cwricwlwm newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ar ôl ymweld ag ysgol arloesi leol. Mae'r cysylltiad â'r ysgol hwn yn helpu athrawon i gynllunio'r cwricwlwm yn Aran Hall.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 3.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2020